

Testunau

Roedd Penrhys, ar grib y mynydd rhwng Rhondda Fach a Rhondda Fawr ym Morgannwg, yn un o'r mannau mwya cysegredig yn Ne Cymru. Fe fyddai'r pererinion yn mynd yno i weddïo ger y cerflun o'r Forwyn Fair ac i ymdrochi yn y ffynnon gysegredig.

Beth allwch chi ddysgu o'r cerddi hyn am sut mae'r cerflun yn edrych?

Morwyn wryy, Mair wineurudd ... Llun y wryy a'i llaw'n euraidd Lle mae braich llaw Mab a roed. (Gwilym Tew: © A. E. Williams)	Morwyn wryyf, Mair rhuddiau gwin Delwedd y wryyf a'i llaw'n euraidd Lle mae ei braich, roedd ei mab wedi gosod ei law
Miragl waith ym mrig y lan magu Iesu am gusan ... yn dy fraich mae'r un Duw fry. (Rhisiart ap Rhys: © UWP)	Gwaith gwyrthiol ar dop y bancyn magu Iesu am gusan ... yn dy fraich mae'r un Duw fry.
Y ferch wryy, Fair, â choron (Lewys Morgannwg: © CAWCS)	Y ferch wryyf, Fair â choron

Beth arall oedd 'na?

Ynys yw Pen-rhys yn nhrwyn y fforest, Bara 'fferen a dŵr swyn. (Gwilym Tew)	Ynys yw Penrhys yn nhrwyn y fforest, Bara offeren a dwr sanctaidd
Ym mrig craig y mae eirw crych, yn iach anaf a'i chwennych: gwin gwyn drwy'r rhewyn a red, gŵyr lladd gwaewyr a lludded. (Rhisiart ap Rhys: © UWP)	Ar ben y graig, mae'r nant yn arw, yn gwella anafiadau y rhai sy'n chwennych hynny; gwin gwyn sy'n rhedeg drwy'r rhewyn(nant), mae'n gallu lladd gwewyr a blinder.

Beth allwn ni ddweud am hanes y cerflun?

Y cad gwyrth yn y coed gynt. Fry o'i chuddygl, ferch addwyn, O fôn dêr ni fynnai'i dwyn ... Yna daethost, fendithfawr, I'r lle hwn o'r nef i'r llawr. Dy ddelw bob dydd a welynt Yn fyw a gad o nef gynt. (Lewys Morgannwg)	Daethpwyd o hyd i wyrth yn y goedwig gynt. I fyny o'i chuddfan, ferch addfwyn, o fôn derwen, ni ellid ei dwyn Yna daethost, yn fendith fawr, I'r lle hwn o'r nef i'r llawr. Dy ddelw bob dydd a welynt Yn fyw a ddaeth o'r nef gynt.
---	---

Pa fath o bobl fyddai'n mynd ar bererindod i Benrhys? Pam roedden nhw'n mynd yno?

Llawer un i'r llawr a aeth a dynnaist o'i fudaniaeth. Haind y werin yn d'aros o'r wylo'n iach yr ail nos ... O gyr pwys y gwayw o'r pen, iacháu eraill o'r chwarrren. (Rhisiart ap Rhys: © UWP)	Cafodd sawl mudan a ymgrymodd i'r llawr ei iachau gennynt. Haint y werin, sy'n barod amdanat, ar ôl wylo, yn cael ei iachau ar yr ail noson..... O yrru pwysau'r gwayw o'r pen, (I) iacháu eraill o'r pla.
Mewn llaw Fair mae'n lleferydd. Lleferydd y llafuriaid, Llu'm Mhen-rhys lle maen' erioed. (Gwilym Tew)	Mewn llaw Fair mae'n lleferydd. Lleferydd y gweithwyr Maen nhw'n llw ym Mhenrhys lle maen nhw wedi bod erioed.
Ewch i lefain â chleifion I fwrw'ch haint at y ferch hon ... Cair, Morwyn Fair, y meirw'n fyw. Cawson' ynfydion fedydd; Coelied dall câi weled dydd.	Ewch i lefain gyda chleifion I fwrw'ch haint at y ferch hon..... Gyda'r Forwyn Fair, gall y meirw fod yn fyw. Mae'r afiach eu meddwl wedi cael eu bedyddio;

Crypliaid dôn' i'r côr, plaid deg, Caen' eu traed lle caent redeg. Clywant o byddant byddair ... Morwyr pell a gymhellir; Mair a'u dwg o'r môr i dir. Ym mhob ing, ym mhob angau, Mair oedd eu help i ymrydd. (Lewys Morgannwg)	Gadewch i'r dall gredu y gallan nhw weld golau dydd. Gadewch i'r cloffion ddod i'r côr, cwmni da, Byddan nhw'n dod o hyd i'w traed lle y gallan nhw redeg. Os ydyn nhw'n fyddar byddan nhw'n clywed.... Y morwyr sydd wedi eu gyrru ymhell, Bydd Mair yn dod â nhw nôl o'r môr i'r tir. Ym mhob ing, ym mhob angau, Mair oedd eu help i ymryddhau.
--	---

Sut roedden nhw'n teithio? Beth fydden nhw'n mynd gyda nhw?

Af i Ben-rhys yn fy un crys, rhag ofn y cryd, Ac ar fy nglin, oed pererin, dapr o wrhyd; (Gwilym Tew)	Af i Ben-rhys yn fy un crys, rhag ofn y cryd, (twymyn) Ac ar fy nglin, yn oes y pererin, Tapr (cannwyll gwyr) o uchder dyn* *Ydi e'n dweud y byddai'n mynd ar ei liniau, neu y byddai'n cario'r gannwyll ar ei lin - a beth mae'n awgrymu ynglyn â sut y bydd yn teithio?
I'm llaw iawn yn cau mae llun cwyr, I'm llaw asau mae llaswyr ... Af â cherdd i ofwy'ch urddas A chwyr ywch lle archa' ras (Lewys Morgannwg)	Yn fy llaw dde mae cerfiad mewn cwyr, Yn fy llaw chwith mae llaswyr*.... Fe af â cherdd (efallai cân) i ymweld a'ch urddas A chwyr i'ch lle i ymbil am ras. *rosari, neu lyfr y salmau neu hen offeryn cerdd.
Parlwr gan fŵr niferoedd i fêls draw fal ostri oedd. Pen-rhys o'i llys a'i llaswyr, pwys dau gant mewn pyst o gŵyr. Diffwrwyth oedd weled ofrwm	I lawer oedd yn glaf roedd ei pharlwr fel gwesty, Roedd Pen-rhys oherwydd ei llys a'i llaswyr, yn pwyso cymaint â dau gant o byst o gwyr. Ofer oedd gweld offrwm

diethr ei haur da a thrwm. Ei mawr fRAINT gyda Mair fry, y mae'i henaïd am hynny. (O Farwnad Rhisiart ap Rhys i Elspeth Mathew o Radyr: © UWP)	Ag eithrio ei haur da a thrwm. Ei mawr fRAINT gyda Mair fry, y mae ei henaïd oherwydd hynny.
--	--

Allwn ni ddod o hyd i unrhyw hanesion gwyrthiau penodol o'r llinellau yma gan Lewys Morgannwg?

Llawer dyn lle'r wyd unair farw âi'n fyw 'n dy fron, Fair. Fe ddaw atoch yn llawen Y marw a'i wisg ywch, Mair wen. Ni ddaw mud i'th weddi, Mair, Na ddywaid cyn pen ddeuair. O daw llef y dall ufydd, E wyl y dall olau dydd. O daw angall a'i dynged, E ddaw gras iddo o'i gred. O daw byddar at arall, Fe glyw llef o glwyf y llall. Fai glaf ar faglau ofwy, gôr Mair ni ddygir mwy.	Mae llawer dyn lle rwyf ti, mewn un gair, wedi codi o farw'n fyw yn dy fron, Mair. Fe ddaw'r dyn marw atoch yn llawen a'i wisg i chi, Mair wen (sanctaid). Ni ddaw mud i'th weddi, Mair, Na fydd yn gallu dweud dau air cyn y diwedd. Os daw llef y dall ufudd, Fe wyl y dall olau dydd. Os daw person ffôl a'i dynged, Fe ddaw gras iddo trwy ei gred. Os daw un byddar at un arall, Fe glyw llef o glwyf y llall. Os daw claf ar ei ffyn baglau heibio, Ni fyddai'n cael ei gario o gôr Mair yn yr un ffordd.
--	--

Beth yw cryfderau a gwendidau defnyddio y math hwn o farddoniaeth fel tystiolaeth? Beth sy'n rhaid i ni wybod am y beirdd, eu rhesymau dros ysgrifennu ac amgylchiadau perfformiad i werthuso'r farddoniaeth fel ffynhonnell?

Dinistrio'r Man Cyesgredig

Roedd y Diwygwyr Protestanaidd yn gofidio bod y pererindodau a chlodfori'r cysegrfannau, creiriau a cherfluniau yn arwain pobl ar gyfeiliorn. Dyma lythyr Hugh Latimer, esgob Caerwrangon, at Thomas Cromwell ym Mehefin 1538:

I trust your Lordship will bestow our great Sibyl to some great purpose, ut pereat memoria cum sonitu [that the memory may perish with the sound]. She hath been the Devil's instrument to bring many (I fear) to eternal fire. Now she herself with her old sister of Walsingham, her younger sister of Ipswich, with her other two sisters of Doncaster and Penrhys, would make a jolly muster in Smithfield. They would not be all day in burning.

Roedd Latimer yn cyfeirio at gerflun o'r Forwyn fair yn ei eglwys gadeiriol ei hun, ac at gerfluniau enwog eraill oedd ar frig y rhestr oedd i gael eu dinistrio. Beth mae'n awgrymu ynglyn â phwysigrwydd y cerflun ym Mhenrhys? Pam roedd Latimer yn pryderu amdanyn nhw? Sut mae'n dangos ei gonsern?

Fe gafodd Syr William Herbert, tirfeddiannwr o St Julians ger Casnewydd orchymyn gan Cromwell i ddistrywio'r cerflun ym Mhenrhys. Dyma ei adroddiad:

My special good lord, in my humblest wise I recommend me unto you. Pleaseth it your Lordship to be advertised that I received your Lordship's letter the xxiiird of August dated at the Castle of Arundel the xvi day of August, declaring to me the King's pleasure and yours, that I should with the Chancellor of the diocese of Llandaff repair, upon the sight thereof, to Penrhys and there to assist the said Chancellor to take down the Image of Our Lady with quietness and secret manner as might be. And after the respect of the King's pleasure and yours, perceiving the said Chancellor not being in the country now nigh, whereby the King's pleasure and yours might be performed with diligence, I perceiving his pleasure and yours to be so, not only commanded one Sir Thomas Bacon, Commissary of the diocese of Llandaff to do the act but also [ad]monished others whom your lordship appointed to be with the said Chancellor in like manner to be there also. As I with the said Commissary went thither the xxvith day of August and not only took down the said Image but also declared to the audience the King's pleasure and yours touching the idolatry that was done there, for the minishment that it caused of the honour of God. Which official will bring the said Image and her apparel to your Lordship with as convenient speed as he may. Any other service that it

pleaseth you to command me shall be done to the utmost of my power as knoweth God who preserve your Lordship. From Newport in Wales the xiiiith day of this September.

W. Herbert

Lluniwch amserlen i'r llythyron a'r digwyddiadau. Beth ofynnwyd i William Herbert i wneud, a sut? Oes unrhywbeth yn awgrymu ei fod yn anfodlon â'r hyn mae'n gwneud? Pa broblemau sydd ganddo, a pham? Pam rych chi'n credu bod ganddo'r problemau hyn? Beth mae'n ddweud wrthoch chi am boblogrwydd cysegrfan Penrhys? Ac yn olaf, o feddwl bod y cerflun yn fater sensitif tu hwnt yn wleidyddol, pam iddo ohirio ei anfon i Lundain gyhyd?

Yr Athro Madeleine Gray

Prifysgol De Cymru